HM Prison & Probation Service

# Cynllun Gweithredu: Carchar Ei Fawrhydi y Parc

Cyflwynwyd y Cynllun Gweithredu: 21 Hydref 2022

Ymateb i Arolygiad Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi: 21-22 Mehefin a 4-8 Gorffennaf 2022

Cyhoeddwyd yr Adroddiad: 11 Hydref 2022

**CYFLWYNIAD**

Mae Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi (HMIP) ac Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi yng Nghymru a Lloegr yn arolygiaethau annibynnol sy’n darparu gwasanaethau craffu ar yr amodau ar gyfer carcharorion a throseddwyr, a’r driniaeth ar eu cyfer. Maent yn cyflwyno adroddiad ar eu canfyddiadau ar gyfer carchardai, Sefydliadau Troseddwyr Ifanc ac effeithiolrwydd gwaith y gwasanaeth prawf, a gwasanaethau troseddau ieuenctid ledled Cymru a Lloegr i’r Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (HMPPS). Mewn ymateb i’r adroddiad mae’n rhaid i HMPPS / y Weinyddiaeth Gyfiawnder ddrafftio cynllun gweithredu cadarn ac amserol i fynd i’r afael â’r pryderon blaenoriaethol ac allweddol. Mae cynlluniau gweithredu yn darparu camau gweithredu penodol i fynd i’r afael â’r pryderon blaenoriaethol ac allweddol. Mae’r camau gweithredu yma yn glir, yn canolbwyntio ar ganlyniadau, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy, ac yn berthnasol, gyda pherchennog ac amserlen pob cam wedi’u nodi’n glir. Anfonir cynlluniau gweithredu i HMIP a’u cyhoeddi ar wefan GOV.UK. Bydd cynnydd y broses o hyrwyddo a chyflawni’r cynlluniau gweithredu hefyd yn cael ei fonitro, ac adroddir arno.

CYNLLUN GWEITHREDU: ADRODDIAD AROLYGIAETH CARCHARDAI EI FAWRHYDI

SEFYDLIAD: CARCHAR EI FAWRHYDI Y PARC

| 1. Rhif Arg | 2. Pryderon | 3. Ymateb Camau a Gymerwyd/Cynlluniwyd | 4. Perchennog Cyfrifol | 5. Dyddiad Targed |
|---|---|---|---|---|
| | **Pryderon blaenoriaethol** | | | |
| 1 | **Lefelau hunan-niweidio a gofnodwyd yn parhau i fod yn rhy uchel.** | Bydd Carchar y Parc yn ceisio lleihau'r lefelau hunan-niweidio fel a ganlyn:<br><br>• Bydd yn cyflwyno Cyfarfod Ymyriadau Diogelwch (SIM) wythnosol i drafod ac adolygu pob achos o hunan-niweidio, gan gynnwys unrhyw ddigwyddiadau bron yn angheuol pan maent yn digwydd. Mae'r cyfarfod yn seiliedig ar well mynediad at ddata am bob digwyddiad o'r wythnos flaenorol, gan gynnwys unigolion, rhesymau, a lleoliadau, er mwyn cynyddu dealltwriaeth o batrymau hunan-niweidio fel bod modd codi camau gweithredu priodol i gefnogi'r rhai sydd eu hangen.<br>• Gwella goruchwyliaeth strategol o hunan-niweidio yn y cyfarfod diogelwch misol, drwy ddadansoddi data er mwyn nodi tueddiadau a phatrymau fel bod modd cyfeirio adnoddau yn ôl y galw, ac ychwanegu camau gweithredu at y cynllun gweithredu cyfnerthedig lle cânt eu monitro a'u tracio.<br>• Adolygu effeithiolrwydd y modd y caiff data eu dadansoddi, â'r camau gweithredu dilynol yn cael eu monitro'n agos yn y Cyfarfod Carchardai Diogelach misol er mwyn mesur cynnydd wrth leihau lefelau hunan-niweidio.<br>• Sicrhau bod gwiriadau sicrhau ansawdd gan reolwyr a'r tîm diogelwch yn canolbwyntio mwy ar wella ansawdd adolygiadau Asesu, Gofal yn y Ddalfa a Gwaith Tîm (ACCT), yn enwedig | <br><br>Cyfarwyddwr<br><br><br><br><br><br><br><br>Cyfarwyddwr<br><br><br><br><br>Cyfarwyddwr<br><br><br><br>Cyfarwyddwr | <br><br>Wedi'i gwblhau<br><br><br><br><br><br><br><br>Wedi'i gwblhau<br><br><br><br><br>Rhagfyr 2022<br><br><br><br>Rhagfyr 2022 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | mewn cysylltiad â chynllunio gofal, gan ddarparu adborth a gwybodaeth i reolwyr achos unigol a'r cyfarfod diogelwch misol.<br>• Adolygu'r broses gynefino, gan gynnwys asesu gofal iechyd a gweithdrefnau diwrnodau cynnar yn y ddalfa, er mwyn helpu i adnabod y rhai hynny sydd angen cefnogaeth ychwanegol wrth gyrraedd Carchar y Parc.<br>• Cryfhau gwasanaethau gwrandawyr cefnogi cymheiriaid i ddarparu cymorth ychwanegol i'r rhai sydd ei angen.<br>• Gwella'r trefniadau a'r gefnogaeth yn yr uned Dalfa Fwy Diogel drwy ganiatáu mwy o amser allan o'r gell a mwy o ryngweithio â staff.<br><br>Dangosodd gwaith dadansoddi data mai problemau iechyd meddwl sy'n bennaf y tu ôl i hunan-niweidio, ac mae dadansoddiad o anghenion iechyd wedi nodi bod angen mwy o gefnogaeth iechyd meddwl. Er mwyn mynd i'r afael â hyn:<br><br>• Bydd Carchar y Parc yn gweithio gyda'i bartneriaid gofal iechyd er mwyn sicrhau bod mwy o gefnogaeth ar gael i'r rhai sydd ei hangen.<br>• Mae HMPPS yng Nghymru yn cynnal adolygiad o'r gweithlu gofal iechyd fel rhan o'r broses o drosglwyddo'r gwasanaeth i'r bwrdd iechyd lleol ym mis Rhagfyr 2022, a bydd adnoddau ychwanegol i gefnogi'r rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl yn rhan o'r adolygiad hwn a thrafodaethau rheolaidd. | Cyfarwyddwr<br><br>Cyfarwyddwr<br><br>Cyfarwyddwr<br><br>Cyfarwyddwr<br><br>HMPPS yng Nghymru | Ionawr 2023<br><br>Rhagfyr 2022<br><br>Rhagfyr 2022<br><br>Mawrth 2023<br><br>Tachwedd 2022 |
| 2 | **Nid oedd gwasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu yn darparu gofal a thriniaeth hygyrch sy'n seiliedig ar dystiolaeth**. Nid oedd digon o | Er mwyn gwella mynediad at wasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu, bydd Carchar y Parc a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (BIPCTM) yn: | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | adnoddau i sicrhau bod pob carcharor a oedd yn cael ei gyfeirio yn derbyn asesiad amserol o'i anghenion a thriniaeth yn dilyn hynny. | • Dyrannu rhagor o adnoddau i gwblhau asesiadau Iechyd Meddwl ardderchog. Cafodd llwybr atgyfeirio newydd ei ddatblygu a'i roi ar waith ym mis Medi 2022. Bydd cyfarfod atgyfeiriadau wythnosol yn adolygu ac yn dyrannu'r llwyth gwaith ar sail y galw a'r angen sydd wedi'i flaenoriaethu; bydd hynny'n cynnwys Anableddau Dysgu.<br>• Bydd G4S Health yn ailsefydlu cysylltiadau â Thimau Cymunedol i helpu ag unrhyw anghenion Anableddau Dysgu sydd heb eu diwallu, gan archwilio cefnogaeth o bell.<br>• Cynnal adolygiadau misol o'r galw a niferoedd y llwyth achosion ar ôl cyflwyno'r llwybr newydd, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn hygyrch, yn amserol ac yn nodi unrhyw angen sydd heb ei ddiwallu.<br>• Fel rhan o'r gwaith paratoi sy'n cael ei wneud cyn trosglwyddo'r contract gofal iechyd, mae'r bwrdd iechyd wedi adolygu'r wybodaeth a dderbyniwyd mewn cysylltiad â'r proffil staff presennol, yr asesiad o anghenion gofal iechyd ac arolygiadau carchar diweddar. Defnyddiwyd yr wybodaeth hon i sicrhau y bydd y proffil staffio yn y dyfodol yn diwallu anghenion y gwasanaeth a sicrhau bod BIPCTM yn gallu darparu'r gwasanaethau a ddisgrifiwyd yn y fanyleb mewn da bryd. Bydd cyfnod o ymsefydlu yn dilyn ym mis Rhagfyr ar ôl trosglwyddo'r gwasanaeth.<br>• Caiff monitro a chydymffurfiad y ddarpariaeth, gan gynnwys adnoddau ac amseroedd aros, eu trafod yn y cyfarfod gweithredol gofal iechyd misol gan Garchar y Parc, ac yn chwarterol yn y Bwrdd Partneriaeth Iechyd Carchardai sy'n cael ei gadeirio gan HMPPS yng Nghymru. | Cyfarwyddwr/G4S Health<br>Cyfarwyddwr/G4S Health<br>Cyfarwyddwr/G4S Health<br>CTMUHB<br>Cyfarwyddwr/HMPPS yng Nghymru | Wedi'i gwblhau<br>Tachwedd 2022<br>Tachwedd 2022<br>Mawrth 2023<br>Mawrth 2023 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3 | **Roedd y prinder staff mewn swyddi rheoli ac ailsefydlu troseddwyr wedi arwain at ddirywiad mewn cynllunio ar gyfer ailsefydlu a rhyddhau carcharorion**. | Er mwyn mynd i'r afael â phrinder staff ym maes rheoli ac ailsefydlu troseddwyr a gwella'r broses o gynllunio ar gyfer ailsefydlu a rhyddhau: | | |
| | | • Drwy'r strategaeth recriwtio leol bydd Carchar y Parc yn parhau i fynd i'r afael ag unrhyw swyddi gweigion ym maes rheoli ac ailsefydlu troseddwyr, gan gysylltu â HMPPS yng Nghymru i fynd i'r afael ag unrhyw swyddi gwag/prinder fel rhan o ddarpariaeth y gwasanaeth prawf. Mae staff Rheoli Troseddwyr newydd wedi'u recriwtio yn barod a nifer y swyddi gweigion wedi'u lleihau fel rhan o'r strategaeth. | Cyfarwyddwr | Mawrth 2023 |
| | | • Bydd HMPPS yng Nghymru a'r Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol yn cynnal adolygiad o'r ddarpariaeth brawf bresennol a'r swyddi gweigion yng Ngharchar y Parc. | HMPPS yng Nghymru | Wedi'i gwblhau |
| | | • Bydd Carchar y Parc yn penodi pennaeth newydd i Dîm Ailsefydlu'r Carchar erbyn diwedd 2022, a bydd y pennaeth hwn yn llunio ac yn arwain strategaeth Ailsefydlu newydd. | Cyfarwyddwr | Wedi'i gwblhau |
| | | • Bydd y Penaethiaid Rheoli Troseddwyr a Thîm Ailsefydlu'r Carchar yn adolygu'r ddarpariaeth gwasanaethau ailsefydlu dan gontract ac yn rhoi arferion gweithio diwygiedig ar waith i ganolbwyntio ar drefniadau cynllunio ar gyfer rhyddhau. | Cyfarwyddwr | Mawrth 2023 |
| | | • Bydd Carchar y Parc a HMPPS yng Nghymru yn cydweithio'n agosach er mwyn gwella gwasanaethau ailsefydlu a ddarperir gan bartneriaid dan gontract, a fydd yn cynnwys HMPPS yn rhannu data perfformiad misol yn ymwneud â'r gwasanaethau hyn. | Cyfarwyddwr/HMPPS yng Nghymru | Rhagfyr 2022 |
| | | • Bydd Carchar y Parc yn adolygu'r holl ddata sydd ar gael mewn cyfarfod ailsefydlu misol o fis Ionawr 2023 ymlaen er mwyn monitro'r ddarpariaeth, gwelliannau a chanlyniadau a rhoi sylw i unrhyw bryderon drwy gynllun gweithredu. | Cyfarwyddwr | Ionawr 2023 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Bydd Carchar y Parc yn creu hwb ailsefydlu amlasiantaethol, fel bod yr holl wasanaethau ailsefydlu ar yr un safle er mwyn gwella cydweithrediad a chyfathrebu rhwng y gwahanol ddarparwyr a darparu 'siop un stop' i bob carcharor. | Cyfarwyddwr | Ebrill 2023 |
| | **Pryderon allweddol** | | | |
| 4 | **Cyfraddau trais cyffredinol yn rhy uchel.** | Bydd Carchar y Parc yn ceisio lleihau lefelau trais drwy'r mesurau a ganlyn:<br><br>• Bydd Carchar y Parc yn adolygu pob agwedd ar drais drwy asesiad PRISM *(Promoting Risk Intervention by Situational or Management)* erbyn mis Ionawr 2023. Defnyddir yr asesiad i lunio strategaeth newydd i leihau troseddu.<br>• Bydd cyflwyno Cyfarfod Ymyriadau Diogelwch (SIM) wythnosol yn trafod ac yn adolygu pob digwyddiad treisgar, a charcharorion (troseddwyr a dioddefwyr) sy'n destun Cynllun Herio, Cefnogi ac Ymyrryd (CSIP). Mae'r cyfarfod yn seiliedig ar well mynediad at ddata am bob digwyddiad o'r wythnos flaenorol, gan gynnwys unigolion, rhesymau, a lleoliadau, er mwyn cynyddu dealltwriaeth o dueddiadau trais fel bod modd codi camau gweithredu priodol.<br>• Bydd y Cyfarfod Diogelwch misol yn adolygu sut mae data diogelwch yn cael eu dadansoddi, gan nodi ffactorau sy'n sbarduno trais, a chytuno ar gamau i fynd i'r afael â'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r ffactorau hyn. Caiff effeithiolrwydd y modd y dadansoddir data, a chamau gweithredu dilynol (a ychwanegir at y cynllun gweithredu cyfnerthedig) eu monitro'n ofalus yn y cyfarfod er mwyn sicrhau bod lefelau trais yn dal i ostwng.<br>• Bydd pob gweithred dreisgar y gwyddys amdani yn cael ei harchwilio gan y tîm lleihau trais cyn pen 72 awr, felly gellir codi camau gweithredu ac atgyfeiriadau priodol. | Cyfarwyddwr | <br><br>Ionawr 2023<br><br>Rhagfyr 2022<br><br>Mawrth 2023<br><br>Rhagfyr 2022 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Bydd y tîm lleihau trais yn cynnal gwiriadau sicrwydd ansawdd wythnosol o gynlluniau CSIP er mwyn sicrhau eu bod wedi'u teilwra ar gyfer yr unigolyn, a bod targedau'n effeithiol er mwyn lleihau/atal rhagor o drais. Rhoddir canfyddiadau a phwyntiau dysgu i reolwyr achos a chânt eu cyflwyno'n fisol i'r cyfarfod SIM.<br>• Bydd Carchar y Parc yn adolygu'r Polisi Cymhellion yn flynyddol er mwyn sicrhau ei fod yn gwobrwyo ymddygiad cadarnhaol, ond hefyd yn herio ymddygiad negyddol.<br>• Cryfhau gwasanaethau gwrandawyr cefnogi cymheiriaid er mwyn darparu cymorth ychwanegol i'r rhai sydd ei angen.<br>• Caiff cynllunio ailintegreiddio ei adolygu er mwyn sicrhau bod cynlluniau'n cefnogi carcharorion sy'n dychwelyd i unedau preswyl ar ôl cael eu cadw ar wahân.<br>• Bydd Carchar y Parc yn gweithio gyda phartneriaid yn yr ardaloedd heddlu lleol er mwyn erlyn carcharorion sy'n cyflawni gweithredoedd treisgar, a rhai sy'n defnyddio arfau.<br>• Caiff atgyfeiriadau i'r Dyfarnwr Annibynnol eu gwneud lle nad yw digwyddiadau'n bodloni'r meini prawf ar gyfer atgyfeiriadau'r heddlu.<br>• Caiff dyfarniadau ar gyfer gweithredoedd treisgar ac atgyfeiriadau i'r heddlu eu tracio a'u monitro drwy gyfarfodydd chwarterol y Grŵp Gwahanu, Monitro ac Adolygu (SMARG), er mwyn sicrhau eu bod yn cael sylw o fewn y graddfeydd amser priodol. Bydd unrhyw oedi a nodir yn cael ei gyfeirio'n uwch i sylw'r awdurdod/heddlu priodol. | | Ebrill 2023<br><br>Ebrill 2023<br><br>Ebrill 2023<br><br>Mawrth 2023<br><br>Rhagfyr 2023<br><br>Rhagfyr 2023<br><br>Ebrill 2023 |
| 5 | **Roedd cyffuriau anghyfreithlon yn parhau'n fygythiad arwyddocaol.** | Bydd Carchar y Parc yn ceisio sicrhau bod llai o gyffuriau anghyfreithlon ar gael drwy'r mesurau a ganlyn:<br><br>Bydd grŵp tasgau a chydlynu Carchar y Parc yn parhau i adolygu pob gwybodaeth a geir yn wythnosol ac yn llunio asesiad tactegol | Cyfarwyddwr | <br><br>Wedi'i gwblhau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | misol i dargedu'r bygythiadau diogelwch presennol. Mae'r rhain yn cynnwys cyflenwi eitemau anghyfreithlon, gan gynnwys cyffuriau, troseddu cyfundrefnol a llygredd staff. Bydd y cyfarfodydd tasgau a diogelwch misol yn cynhyrchu camau gweithredu er mwyn targedu adnoddau yn seiliedig ar y gudd-wybodaeth ddiweddaraf.<br><br>Yn ogystal â'r mesurau uchod bydd Carchar y Parc yn: | | |
| | | • Datblygu gwaith Ffynhonnell Cudd-wybodaeth Ddynol gyda chydweithwyr o Asiantaethau Gorfodi'r Gyfraith er mwyn gwella'r broses o ganfod cyffuriau a helpu i darfu ar y cyflenwad. Gosodwyd targedau penodol (cyfyngedig) er mwyn cynyddu canlyniadau yn y maes hwn. | | Mehefin 2023 |
| | | • Adolygu proffil y tîm cudd-wybodaeth yn unol â'r strwythur strategol diwygiedig. | | Rhagfyr 2023 |
| | | • Cynyddu nifer y carcharorion sy'n cael eu cyfweld ar adeg eu trosglwyddo a'u rhyddhau er mwyn cael gwybodaeth i adeiladu'r darlun cudd-wybodaeth. | | Mehefin 2023 |
| | | • Cynnal adolygiad o'r gwahanol dechnolegau sydd ar gael ar hyn o bryd i ganfod cyffuriau a ffonau symudol a chyflwyno ceisiadau am fwy o fuddsoddiad yn y meysydd hyn lle mae angen wedi'i nodi. | | Rhagfyr 2023 |
| | | • Sicrhau gwell cyfarpar i ganfod ffonau symudol er mwyn gwella dibynadwyedd a chadernid ar draws y carchar ar gyfer defnydd rheolaidd yn ogystal â defnydd wedi'i dargedu. | | Mehefin 2023 |
| | | • Diweddaru'r camerâu teledu cylch cyfyng i helpu â thactegau atal a chanfod llygredd. | | Rhagfyr 2023 |
| | | • Parhau i reoli achosion er mwyn sicrhau dull gweithredu deuol cefnogol ac ataliol trylwyr i staff, â gwaith ychwanegol wedi'i raglennu er mwyn gwella Rheoli Gwrthdaro Buddiannau o'r adeg y caiff staff eu recriwtio. | | Rhagfyr 2023 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Bydd Carchar y Parc yn cefnogi carcharorion sy'n defnyddio cyffuriau ac yn lleihau eu hangen i gael cyffuriau anghyfreithlon fel a ganlyn:<br><br>• Mae cyflwyno uned breswyl ychwanegol ar Floc A yn caniatáu i'r garfan hon o garcharorion gael mynediad at Wasanaethau Gofal Iechyd a Chamddefnyddio Sylweddau (SMS) i'w cefnogi â'u harferion cyffuriau.<br>• Cynyddu capasiti'r adain ymhellach (yn ogystal â bloc A), gan fod adolygiad yn ddiweddar wedi gweld bod angen mwy o gapasiti i gefnogi'r cynnydd yn y garfan hon o garcharorion.<br>• Sicrhau bod pob carcharor sy'n cael ei ddal yn defnyddio cyffuriau neu sy'n cael prawf cyffuriau cadarnhaol yn cael ei gyfeirio'n awtomatig at SMS i gael cynnig cefnogaeth.<br><br>Trafodir goruchwyliaeth strategol i gefnogi unigolion sy'n defnyddio cyffuriau yn y cyfarfod strategaeth cyffuriau misol, gan ddefnyddio data cyfredol i adnabod a monitro tueddiadau fel bod modd cyfeirio camau gweithredu ac adnoddau'n effeithiol. Bydd y cyfarfod hefyd yn adolygu'r ddarpariaeth sydd ar gael er mwyn sicrhau bod digon o adnoddau ar gael ar gyfer y galw. | | Mehefin 2023<br><br>Wedi'i gwblhau<br><br>Wedi'i gwblhau<br><br>Hydref 2023 |
| 6 | **Roedd bylchau yn yr oruchwyliaeth strategol o feysydd pwysig, gan gynnwys diogelwch ac ailsefydlu.** Nid oedd data bob amser yn cael eu defnyddio'n effeithiol i fesur cynnydd a hybu gwelliant**.** | Er mwyn gwella goruchwyliaeth strategol a sicrhau bod data'n cael eu defnyddio'n effeithiol i fesur cynnydd a hybu gwelliant, bydd Carchar y Parc yn:<br><br>• Adolygu pob strategaeth yn flynyddol, gan ddefnyddio'r holl ddata a gwybodaeth sydd ar gael, er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n benodol i anghenion y boblogaeth. Cynnwys adolygiad o bob agwedd ar drais drwy asesiad PRISM erbyn Ionawr 2023, a fydd yn cael ei ddefnyddio i lunio strategaeth newydd i leihau trais. | Cyfarwyddwr | Ebrill 2023 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Adolygu effeithiolrwydd y ffordd y caiff data eu dadansoddi ym mhob cyfarfod strategol, â chamau gweithredu dilynol yn cael eu monitro'n ofalus yn y cyfarfodydd i fesur cynnydd a hybu gwelliannau.<br><br>Yn benodol, er mwyn gwella goruchwyliaeth ym maes diogelwch, ailsefydlu ac iechyd, bydd Carchar y Parc a HMPPS yng Nghymru yn:<br><br>• Adolygu sut y caiff data diogelwch eu dadansoddi yn y cyfarfod diogelwch misol, nodi tueddiadau, patrymau a ffactorau sy'n sbarduno hunan-niweidio a thrais, a chytuno ar gamau i fynd i'r afael â'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r ffactorau hyn. Ychwanegir camau gweithredu at y cynllun gweithredu cyfnerthedig lle byddant yn cael eu monitro a'u tracio.<br>• Cyflwyno SIM wythnosol sy'n darparu mwy o fynediad at wybodaeth rheoli i drafod ac adolygu pob digwyddiad hunan-niweidio a thrais.<br>• Bydd y Pennaeth Ailsefydlu newydd yn cadeirio cyfarfod ailsefydlu/adsefydlu a fydd yn nodi amcanion strategol. Bydd y carchar yn gweithio gyda phartneriaid HMPPS i wella'r data ailsefydlu a ddarperir gan gontractwyr prawf ac ailsefydlu.<br>• Bydd Carchar y Parc yn monitro cydymffurfiad â'r ddarpariaeth gofal iechyd, gan gynnwys adnoddau ac amseroedd aros, yn y cyfarfod gweithredol gofal iechyd misol. Yn ychwanegol at hyn, bydd HMPPS yng Nghymru yn cadeirio'r Bwrdd Partneriaeth Iechyd Carchardai chwarterol er mwyn monitro'r contract iechyd. | Cyfarwyddwr<br><br>Cyfarwyddwr<br><br>Cyfarwyddwr<br><br>Cyfarwyddwr/HMPPS yng Nghymru<br><br>Cyfarwyddwr/HMPPS yng Nghymru | Ebrill 2023<br><br>Rhagfyr 2022<br><br>Wedi'i gwblhau<br><br>Ionawr 2023<br><br>Mawrth 2023 |
| 7 | **Roedd cyfleoedd i wneud cynnydd i rai carcharorion ar adain A ac adain B yn fwy** | Er mwyn sicrhau bod pob carcharor yn cael cyfle cyfartal i wneud cynnydd, gan gynnwys cyfleoedd cyflogaeth, a mynediad at yr unedau mwy cynyddol, bydd Carchar y Parc yn: | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **cyfyngedig nag i garcharorion eraill yn y Parc.** Roedd carcharorion du a lleiafrifoedd ethnig yn cael eu tangynrychioli ar yr unedau mwy cynyddol. | • Hwyluso grwpiau ffocws misol wedi'u targedu gyda charcharorion Du a Lleiafrifoedd Ethnig ar adain A ac adain B, er mwyn nodi unrhyw faterion anghymesuredd fel bod modd codi camau gweithredu priodol i roi sylw iddynt. Bydd y camau gweithredu o'r cofnodion hyn yn cael eu hychwanegu at y cynllun gweithredu cyfnerthedig cydraddoldeb lle cânt eu monitro a'u tracio yn y cyfarfod Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant misol.<br>• Bydd y cyfarfod Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn adolygu sut y mae data'n cael eu dadansoddi ym mhob agwedd ar fywyd y carchar, gan gynnwys mynediad at gyfleoedd cyflogaeth a'r unedau cynyddol, fel bod modd nodi unrhyw anghymesuredd, a chodi camau gweithredu priodol i fynd i'r afael ag ef.<br>• Cynnal fforymau Nodweddion Gwarchodedig misol yn cael eu harwain gan gymheiriaid ym mhob uned, ac yn cael eu cefnogi gan y swyddog cydraddoldeb, a fydd yn darparu cyngor a chefnogaeth i'r mentoriaid cymheiriaid a mynychu fforymau gwahanol bob wythnos.<br>• Cynnal grwpiau Nodweddion Gwarchodedig misol yn cael eu harwain gan y pennaeth cydraddoldeb neu'r rheolwr cydraddoldeb i ategu'r fforymau a arweinir gan gymheiriaid, i drafod unrhyw faterion na ellir eu datrys yn y fforymau. Caiff tueddiadau a chanfyddiadau o'r grwpiau hyn eu trafod ymhellach yn y cyfarfod Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant er mwyn codi rhagor o gamau gweithredu lle bo angen. | Cyfarwyddwr<br>Cyfarwyddwr<br>Cyfarwyddwr<br>Cyfarwyddwr | Ebrill 2023<br>Mawrth 2023<br>Ebrill 2023<br>Ebrill 2023 |
| 8 | **Roedd prinder staff gofal iechyd difrifol mewn llawer o raddau yn achosi risg i ddiogelwch cleifion**. | Er mwyn mynd i'r afael â'r prinder staff gofal iechyd bydd Carchar y Parc, HMPPS yng Nghymru a BIPCTM yn gweithredu fel a ganlyn:<br>• Bydd ymgyrchoedd recriwtio G4S i lenwi swyddi gweigion yn y tîm iechyd yn parhau nes bydd y ddarpariaeth iechyd yn cael ei | Cyfarwyddwr/G4S Health | Rhagfyr 2022 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | throsglwyddo i BIPCTM ym mis Rhagfyr 2022, ac mae nifer o swyddi gweigion wedi'u llenwi'n barod ers arolygiad HMIP.<br>• Mae adolygiad o'r gweithlu Gofal Iechyd yn cael ei wneud gan HMPPS yng Nghymru fel rhan o'r broses o drosglwyddo'r gwasanaeth i BIPCTM. Mae'r adolygiad eisoes wedi nodi bod angen rhagor o adnoddau i gefnogi'r rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl gan mai dyma'r prif ffactor sy'n achosi hunan-niweidio.<br>• Mae HMPPS yng Nghymru a'r Bwrdd Iechyd yn ceisio cytuno ar fanyleb gwasanaeth yn barod ar gyfer trosglwyddo Iechyd i BIPCTM ar 15 Rhagfyr 2022. Bydd y trefniant newydd â gofal iechyd yn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd â'r gwasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu.<br>• Trafodir monitro a chydymffurfiad y ddarpariaeth, gan gynnwys adnoddau ac amseroedd aros, yn y cyfarfod gweithredol gofal iechyd misol gan Garchar y Parc, ac yn chwarterol yn y Bwrdd Partneriaeth Iechyd Carchardai sy'n cael ei gadeirio gan HMPPS yng Nghymru. | HMPPS yng Nghymru/BIPCTM<br><br>HMPPS yng Nghymru/BIPCTM<br><br>Cyfarwyddwr/HMPPS yng Nghymru | Mawrth 2023<br><br>Rhagfyr 2022<br><br>Mawrth 2023 |
| 9 | **Roedd llywodraethu a goruchwylio rheoli meddyginiaethau yn wael ac yn aneffeithiol.** Nid oedd y systemau a'r gweithdrefnau'n bodloni'r safonau trylwyr sy'n ofynnol ar gyfer rheoli meddyginiaethau'n ddiogel ac yn effeithiol. | Er mwyn gwella'r broses o lywodraethu a goruchwylio rheoli meddyginiaethau bydd Carchar y Parc, HMPPS yng Nghymru a BIPCTM yn:<br><br>• Gweithredu argymhellion o'r Adolygiad Fferylliaeth a gynhaliwyd gan Archwiliad y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol, a adroddwyd ym mis Rhagfyr 2021.<br>• Mae Carchar y Parc wedi recriwtio fferyllydd arall, ac mae Polisïau G4S Health ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn cael eu hailgyflwyno yn lle polisïau a gyflwynwyd dros dro fel rhan o reoli meddyginiaethau Covid.<br>• Mae G4S Health wedi adolygu arferion rheoli meddyginiaethau lleol, gan gynnwys storio meddyginiaethau'n briodol. | G4S Health /BIPCTM<br><br>G4S Health<br><br>G4S Health | Mawrth 2023<br><br>Wedi'i gwblhau<br><br>Wedi'i gwblhau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Defnyddio Ulysses (system adrodd am ddigwyddiadau) i sicrhau goruchwyliaeth briodol yn lleol a thrwy strwythurau Llywodraethu G4S Health.<br>• Caiff cyfarfodydd chwarterol rhwng G4S Health, y Fferyllydd Arweiniol a Rheolwyr Gweithredol eu rhoi ar waith i drafod rheoli meddyginiaethau.<br>• Fel rhan o'r gwaith paratoawl sydd wedi'i gwblhau gan HMPPS yng Nghymru cyn trosglwyddo'r contract o G4S Health i BIPCTM, mae'r strwythur staffio wedi cael ei adolygu ac mae'r angen am ragor o adnoddau i sicrhau llywodraethu a goruchwyliaeth briodol wedi'i nodi a'i gynnwys yn y proffil staff. Caiff polisïau a gweithdrefnau presennol G4S eu mabwysiadu adeg y trosglwyddo, a bydd y rhain yn cael eu hadolygu a pholisïau a gweithdrefnau BIPCTM yn cael eu mabwysiadu yn unol â hynny. Sefydlir fframweithiau monitro ac adrodd priodol, a fydd yn bwydo i mewn i brosesau Llywodraethu BIPCTM er mwyn darparu sicrwydd bod y gweithdrefnau priodol mewn grym ac yn cael eu dilyn i fodloni'r safonau gofynnol. Bydd cyfnod o sefydlu ar ôl i'r gwasanaeth gael ei drosglwyddo ym mis Rhagfyr, sy'n egluro'r dyddiad targed.<br>• Ar ôl cwblhau'r gwaith o drosglwyddo'r contract trafodir monitro a chydymffurfiad y ddarpariaeth yn y cyfarfod gweithredol gofal iechyd misol gan Garchar y Parc, ac yn chwarterol yn y Bwrdd Partneriaeth Iechyd Carchardai dan gadeiryddiaeth HMPPS yng Nghymru. | G4S Health<br><br>Cyfarwyddwr/G4S Health<br><br>HMPPS yng Nghymru/ G4S/BIPCTM<br><br>Cyfarwyddwr/HMPPS yng Nghymru | Tachwedd 2022<br><br>Tachwedd 2022<br><br>Mawrth 2023<br><br>Mawrth 2023 |
| 10 | **Roedd mynediad i'r llyfrgell yn wael**. | Bydd Carchar y Parc yn gwella mynediad i'r llyfrgell fel a ganlyn:<br><br>• Sefydlir llyfrgelloedd mewn ardaloedd preswyl a bydd cymheiriaid yn helpu i archebu a danfon llyfrau o'r brif lyfrgell. | Cyfarwyddwr | Medi 2023 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Bydd y llyfrgell yn yr Uned Carcharorion Agored i Niwed yn ailagor yn dilyn gwaith atgyweirio sylweddol a bydd amserlen newydd yn cael ei chyhoeddi er mwyn gwella mynediad. | Cyfarwyddwr | Mawrth 2023 |
| | | • Bydd carcharorion sy'n ymwneud ag addysg yn yr unedau yn cael cyfle i ymweld â'r llyfrgell fel rhan o'u hwythnos graidd. | Cyfarwyddwr | Mawrth 2023 |
| | | • Bydd mynediad ar benwythnos i'r llyfrgell yn dechrau ym mis Hydref 2022. | Cyfarwyddwr | Wedi'i gwblhau |
| | | • Cynhelir adolygiad cynhwysfawr yn ymwneud â chynyddu potensial y llyfrgell a'i newid i fod yn hwb cymunedol. Bydd hyn yn annog carcharorion i ddod i'r ardal ar gyfer digwyddiadau ymgysylltu ac yn gwella mynediad i'r llyfrgell. | Cyfarwyddwr | Mehefin 2023 |
| | | • Bydd y llyfrgell yn cadw data yn ymwneud â phwy sy'n ei defnyddio, a chaiff y data eu dadansoddi er mwyn penderfynu pa adenydd a pha grwpiau o garcharorion sy'n defnyddio ei gwasanaethau er mwyn canfod unrhyw anghymesuredd yn y defnydd ohoni. Trafodir y data yn y cyfarfodydd ailsefydlu/adsefydlu a Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant er mwyn monitro hygyrchedd a defnydd. | Cyfarwyddwr | Rhagfyr 2022 |
| | | • Yn ogystal, bydd y cyfarfod cyfundrefnau wythnosol yn monitro mynediad i'r llyfrgell ac yn darparu ffigurau i'r cyfarfodydd uchod. | Cyfarwyddwr | Wedi'i gwblhau |
| | | • Comisiynu arolwg i weld faint o garcharorion sy'n mynd i'r llyfrgell er mwyn canfod lefelau ymgysylltu carcharorion. | Cyfarwyddwr | Ebrill 2022 |